WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Darlun Cymharol o Wasanaethau Orthopedeg

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

**Dyddiad:** Mehefin 2015

**Cyfeirnod:** 122A2015

Mae’r gwaith hwn wedi’i baratoi ar sail gwaith a gwblhawyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Anne Beegan, Sian Davies, Andrew Doughton, Kate Febry, Delyth Lewis a Stephen Lisle o dan gyfarwyddyd David Thomas.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o’r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae’n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy’n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo’r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i’r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna’r sefydliadau hynny o’u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella’r defnydd hwnnw.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae’n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â’i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi’i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffoniwch 029 2032 0500, e-bostiwch: post@archwilio.cymru, neu gweler y wefan www.archwilio.cymru.

© Auditor General for Wales 2015

Cewch ailddefnyddio’r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os ydych angen unrhyw un o’n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio’r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost post@archwilio.cymru.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Adroddiad cryno | 4 |
| 1 | Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol | 14 |
| | Darpariaeth gofal sylfaenol | 14 |
| | Atgyfeiriadau gan feddygon teulu | 17 |
| | Gwasanaethau asesu a thrin cyhyrysgerbydol cymunedol | 19 |
| 2 | Cleifion allanol a gwasanaethau diagnostig | 22 |
| | Gwasanaethau i gleifion allanol | 22 |
| | Gwasanaethau ffisiotherapi | 26 |
| | Gwasanaethau radioleg | 28 |
| 3 | Gwasanaethau i gleifion preswyl | 30 |
| | Aros a pharatoi i fynd i'r ysbyty | 30 |
| | Derbyniadau | 34 |
| | Aros yn yr ysbyty | 35 |
| | Rhyddhau cleifion | 36 |
| 4 | Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau | 39 |
| | Trefniadau dilynol | 39 |
| | Canlyniadau a phrofiad cleifion | 40 |
| | Atodiadau | |
| | Atodiad 1 – Ffynonellau data | 44 |

# Adroddiad cryno

1 Yn 2013, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol adolygiad gorfodol lleol o wasanaethau orthopedeg ledled Cymru. Nod yr adolygiad oedd ateb y cwestiwn canlynol: ‘A yw gwasanaethau orthopedeg yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus ac a ydynt yn cael eu cynllunio a’u darparu mewn ffordd gynaliadwy?’ Mae canfyddiadau’r gwaith hwnnw wedi’u cyflwyno mewn adroddiad cenedlaethol, **Adolygiad o Wasanaethau Orthopedeg**.

2 Fel rhan o’r fethodoleg a oedd yn sylfaen i’r adolygiad, aethom ati i gasglu amrywiaeth o ddata er mwyn deall perfformiad gwasanaethau orthopedeg presennol ym mhob bwrdd iechyd. Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno ein harolwg o wasanaethau orthopedeg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd), ac yn nodi sut mae’r gwasanaeth yn cymharu â gweddill Cymru.

3 Rydym wedi seilio ein harolwg ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd gwasanaethau orthopedeg a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio llwybr y claf. Rydym wedi casglu’r data o ffynonellau amrywiol (gweler Atodiad 1), a’r data a ddefnyddir yw’r data mwyaf a oedd ar gael adeg cyflwyno’r adroddiad. Mae canfyddiadau’r dadansoddiad o’r data wedi’u cyflwyno ym mhrif ran yr adroddiad hwn, ond mae’r negeseuon lefel uchel wedi’u cyflwyno yn Arddangosyn 1. Mae Arddangosyn 2 yn asesiad cryno sy’n defnyddio statws goleuadau traffig i ddangos sut mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn cymharu â gweddill Cymru o safbwynt pob dangosydd, a sut mae’n cymharu â thargedau Llywodraeth Cymru, lle bo hynny’n berthnasol.

Arddangosyn 1: Negeseuon lefel uchel

Mae galw cynyddol wedi rhoi pwysau ar wasanaethau i gleifion allanol ac, er bod y sefyllfa’n gwella, ar ôl i gleifion gael eu derbyn, ceir enghreifftiau o aneffeithlonrwydd yn llwybr y claf sy’n effeithio ar y defnydd o adnoddau a phrofiad y claf, gyda rhai canlyniadau yn dilyn llawdriniaeth orthopedeg yn llai cadarnhaol o gymharu â llefydd eraill:

- mae buddsoddiad mewn gwasanaethau gofal sylfaenol yn isel ac yn lleihau, mae cyfraddau atgyfeirio meddygon teulu yn cynyddu ac ymysg yr uchaf yng Nghymru ac mae’r Gwasanaeth Asesu a Thrin Cyhyrysgerbydol Clinigol (CMATS) yn ei chael yn anodd ateb y galw;
- mae’r galw cynyddol ar wasanaethau i gleifion allanol wedi rhoi pwysau ar amseroedd aros, ynghyd â chyfraddau uchel o gleifion nad ydynt yn mynychu apwyntiadau neu’n canslo apwyntiadau, er bod gwasanaethau ffisiotherapi a radioleg yn ateb y galw yn gyffredinol ac mae amseroedd aros i gleifion allanol wedi dechrau gwella;
- mae’r defnydd o adnoddau ar gyfer cleifion preswyl yn amrywio yn ysbytai’r Bwrdd Iechyd, a gellid gwella cyfraddau cleifion allanol, asesiadau cyn llawdriniaeth prydlon, y defnydd o theatrau, cyfraddau defnyddio gwelyau a lleihau nifer y triniaethau sy’n cael effaith gyfyngedig;
- mae cleifion yn cael apwyntiadau dilynol, ond mae rhai canlyniadau yn llai cadarnhaol nag yng ngweddill Cymru, gyda chyfraddau uwch ar gyfer marwolaethau yn dilyn derbyniadau orthopedeg dewisol a Heintiau mewn Safleoedd Llawfeddygol (SSIs).

Arddangosyn 2: Asesiad cryno

| **Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol** | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw’r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn darpariaeth gofal sylfaenol?** | | |
| Mwy o fuddsoddi mewn darpariaeth gofal sylfaenol cyhyrysgerbydol | Mae gwariant ar ddarpariaeth gofal sylfaenol ar gyfer problemau cyhyrysgerbydol wedi gostwng 6.4 y cant rhwng 2010 a 2013. | |
| Cyfanswm y gwariant ar ddarpariaeth gofal sylfaenol | Mae gwariant cyfartalog ar ofal sylfaenol fesul pen o’r boblogaeth (£11.80) yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. | |
| Cyfran cyfanswm y gwariant cyhyrysgerbydol sy’n cael ei dyrannu i ofal sylfaenol | Mae cyfran cyfanswm y gwariant ar ofal sylfaenol yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, ac roedd perfformiad yn 2012-13 yn 10.8 y cant. | |
| Amrywiaeth y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael i feddygon teulu | Mae amrywiaeth y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael i feddygon teulu yn llai ffafriol na’r byrddau iechyd eraill. | |
| Derbyn ymyriad amgen cyn llawdriniaeth | Mae’r graddau y mae cleifion yn derbyn ymyriadau amgen cyn cael llawdriniaeth yn isel, ac eithrio ym maes lleddfu poen, sy’n uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. | |
| **A yw’r galw am wasanaethau gofal eilaidd yn cael ei reoli?** | | |
| Cyfradd atgyfeirio meddygon teulu | Mae’r gyfradd atgyfeirio meddygon teulu fesul 100,000 o’r boblogaeth bellach ymysg yr uchaf yng Nghymru. | |
| Tuedd o ran atgyfeiriadau | Mae nifer yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu i ofal eilaidd wedi cynyddu’n sylweddol ers 2012-13. | |

| Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw'r CMATS yn gweithredu'n effeithiol?** | | |
| CMATS ar waith | Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd CMATS ym mhob ardal yn 2011. | |
| Trefniadau gweithredol CMATS | Mae CMATS yn cydymffurfio ag egwyddorion allweddol Llywodraeth Cymru ac eithrio wrth gynnig podiatryddion ymarfer uwch. | |
| Lefelau staffio CMATS | Mae lefel y staff fesul 1,000 o atgyfeiriadau gan feddygon teulu ar gyfer CMATS yn debyg iawn i gyfartaledd timau ledled Cymru. | |
| Cleifion sy'n cael eu trin gan CMATS | Cafodd 65.8 y cant o gleifion a atgyfeiriwyd asesiad wyneb yn wyneb gan CMATS. | Dangosydd disgrifiadol |
| Amseroedd aros ar gyfer asesu wyneb yn wyneb gan CMATS | Y cyfnod aros cyfartalog rhwng atgyfeirio a chael asesiad CMATS wyneb yn wyneb yw 10 wythnos, sy'n fwy na tharged wyth wythnos Llywodraeth Cymru. | |

| Gwasanaethau i gleifion allanol a gwasanaethau diagnostig | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw gwasanaethau i gleifion allanol yn effeithiol?** | | |
| Amseroedd aros am apwyntiadau cleifion allanol cyntaf | Mae canran y cleifion sy’n aros mwy na 26 wythnos am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, ac mae bellach ymysg yr isaf yng Nghymru. | |
| Sesiynau meddygon ymgynghorol i gleifion allanol | Mae nifer y sesiynau meddygon ymgynghorol i gleifion allanol fesul 1,000 o atgyfeiriadau gan feddygon teulu ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. | Dangosydd disgrifiadol |
| Clinigau cleifion allanol a ganslwyd | Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu adrodd ar gyfran y clinigau cleifion allanol a ganslwyd. | - |
| Cymarebau apwyntiadau dilynol i apwyntiadau newydd | Mae’r gymhareb apwyntiadau dilynol i apwyntiadau newydd (1.7 apwyntiad dilynol i bob apwyntiad newydd) yn unol â tharged Llywodraeth Cymru (1.9) | |
| Cyfraddau cleifion na fynychodd apwyntiadau | Mae’r cyfraddau o gleifion na fynychodd apwyntiadau newydd yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. Fodd bynnag, mae’r cyfraddau ar gyfer apwyntiadau newydd a dilynol yn rhagori ar dargedau Llywodraeth Cymru. | |
| Cleifion yn canslo apwyntiadau | Mae cyfradd y cleifion sy’n canslo apwyntiadau newydd yn uchel, sef 10.1 y cant. Mae cyfradd y cleifion sy’n canslo apwyntiadau dilynol yn is, sef 7.6 y cant. | |
| Cydgysylltu ymweliadau | Roedd wyth deg pump y cant o gleifion yn teimlo bod y Bwrdd Iechyd yn ceisio cydgysylltu eu hymweliadau. Dyma’r ganran isaf ond un yng Nghymru. | |
| Cost fesul presenoldeb claf allanol | Y gost fesul presenoldeb claf orthopedeg allanol (£143.62) yw’r uchaf yng Nghymru ac mae’n cynyddu. | |

| Gwasanaethau i gleifion allanol a gwasanaethau diagnostig | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw gwasanaethau ffisiotherapi yn gallu ateb y galw?** | | |
| Amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau ffisiotherapi | Mae canran y cleifion sy’n aros llai nag wyth wythnos yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, ac ychydig iawn o gleifion, os o gwbl, sy’n aros mwy nag 14 wythnos. |  |
| Lleoliadau amrywiol | Mae gwasanaethau ffisiotherapi yn cael eu darparu mewn lleoliadau gofal sylfaenol, cymunedol ac acíwt amrywiol. |  |
| Mynediad hwylus | Mae cleifion yn gallu eu hatgyfeirio eu hunain yn uniongyrchol i’r gwasanaeth ffisiotherapi. |  |
| Argaeledd gwasanaethau | Mae gwasanaethau ffisiotherapi i gleifion allanol yn parhau i gael eu darparu ar ffurf gwasanaeth pum diwrnod traddodiadol gan amlaf. |  |
| **A yw gwasanaethau radioleg yn gallu ateb y galw?** | | |
| Amseroedd aros ar gyfer profion radioleg o bob math | Mae amseroedd aros ar gyfer profion radioleg yn well o lawer na chyfartaledd Cymru gyfan, ond mae’r perfformiad yn parhau i fod yn is na tharged Llywodraeth Cymru. |  |
| Cyfraddau atgyfeirio MRI | Mae cyfradd yr atgyfeiriadau ar gyfer sganiau MRI gan feddygon teulu a meddygon ymgynghorol yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, ac eithrio yn Ysbyty Treforys, sy’n adlewyrchu’r cymysgedd achosion cleifion ehangach yn yr ysbyty hwn. |  |
| Amseroedd aros am sganiau MRI | Mae canran y cleifion sy’n aros mwy nag wyth wythnos am sganiau MRI wedi gostwng ac mae bellach yn unol â chyfartaledd Cymru gyfan. |  |

| **Gwasanaethau i gleifion preswyl** | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A oes tystiolaeth bod trefniadau yn ymwneud â thriniaethau llawfeddygol yn effeithiol?** | | |
| Trefniadau asesu cyn llawdriniaethau | Mae trefniadau asesu cyn llawdriniaethau ar waith ac maent yn gyson ledled safleoedd y Bwrdd Iechyd, er nad oes unrhyw adran benodedig ar gyfer gwaith asesu. |  |
| Cael asesiad cyn llawdriniaeth | Cafodd pob claf a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd asesiad cyn llawdriniaeth, ond cafodd 14.5 y cant asesiad lai na thair wythnos cyn y llawdriniaeth. |  |
| Triniaethau sy'n cael effaith glinigol gyfyngedig | Mae cyfradd y triniaethau sy'n cael effaith glinigol gyfyngedig yn uchel ym mhob ardal o'r Bwrdd Iechyd, a'r gyfradd yng Nghastell-nedd Port Talbot yw'r uchaf ond un yng Nghymru. |  |
| Cyfraddau cleifion allanol Cymdeithas Llawdriniaeth Ddydd Prydain | Mae canran y triniaethau orthopedeg a argymhellir sy'n cael eu cwblhau fel achosion cleifion allanol yn is na tharged Llywodraeth Cymru ar bob safle ac eithrio Ysbyty Singleton. Mae'r gyfradd yn Ysbyty Treforys ymysg yr isaf yng Nghymru. |  |
| Cyflwyno 'ysgol ar y cyd'[1] | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal rhaglen 'ysgol ar y cyd' ar dri safle i ddarparu sesiynau addysgol ar gyfer cleifion sy'n cael llawdriniaeth i osod clun neu ben-glin newydd. |  |

[1] Mae ysgolion ar y cyd yn darparu sesiynau addysgol ar gyfer cleifion sy'n cael llawdriniaeth orthopedeg, gan gynnwys cyfle i gleifion ddysgu am ymarferion a thechnegau ffisiotherapi a fydd eu hangen arnynt ar ôl y llawdriniaeth.

| Gwasanaethau i gleifion preswyl | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| Amseroedd aros am lawdriniaethau | Mae canran y cleifion sy'n aros mwy na 26 wythnos i gael eu derbyn i'r ysbyty fel claf mewnol neu glaf allanol yn cynyddu ac erbyn hyn mae'n uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. | |
| **A yw nifer y gwelyau'n cael ei ddefnyddio yn effeithiol?** | | |
| Derbyn cleifion ar ddiwrnod eu llawdriniaeth | Mae canran y cleifion sy'n cael eu derbyn ar ddiwrnod eu llawdriniaeth yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru ar bob safle, ac eithrio yn Ysbyty Tywysoges Cymru. | |
| Gostyngiad yn nifer y gwelyau i gleifion preswyl | Roedd cyfanswm y gwelyau orthopedig wedi aros yn gymharol gyson rhwng 2010 a 2013, ond roedd wedi gostwng 17.3 y cant i 183.5 o welyau yn 2013-14. | Dangosydd disgrifiadol |
| Defnyddio gwelyau | Mae cyfraddau defnyddio gwelyau (84.1 y cant) ychydig yn is na'r lefel optimaidd (85 y cant). Fodd bynnag, mae lefelau yn amrywio ar safleoedd gwahanol, gyda dim ond 34.6 y cant o welyau'n cael eu defnyddio yng Nghastell-nedd Port Talbot. | |
| **A yw capasiti theatrau llawdriniaeth yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol?** | | |
| Defnyddio theatrau | Mae perfformiad yn amrywio rhwng 83 a 93 y cant mewn theatrau cleifion preswyl a chleifion allanol, sy'n is na tharged defnyddio gwelyau Llywodraeth Cymru (95 y cant). | |
| Llawdriniaethau a ganslwyd | Roedd cyfradd y llawdriniaethau a ganslwyd gan y Bwrdd Iechyd yn 15.8 y cant ar gyfer achosion cleifion preswyl a 10.4 y cant ar gyfer achosion llawdriniaethau dydd. Nid oes unrhyw gymhariaeth ar gael. | |

| Gwasanaethau i gleifion preswyl | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw hyd arhosiad cleifion mor fyr â phosibl?** | | |
| Hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer derbyniadau orthopedeg dewisol | Hyd arhosiad cyfartalog cleifion orthopedeg dewisol yw 3.8 diwrnod, sy’n cydymffurfio â tharged pedwar diwrnod Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae perfformiad ar safleoedd gwahanol yn amrywio, ac nid yw Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Treforys yn cyrraedd y targedau. | |
| Hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd | Mae’r hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer cleifion sy’n cael cluniau a phengliniau newydd yn cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru, ac eithrio ar gyfer llawdriniaeth i osod cluniau newydd yn Ysbyty Tywysoges Cymru. | |
| Cost fesul cyfnod claf preswyl | Cost gyfartalog cyfnod gofal claf orthopedeg dewisol mewn ysbyty (£4,657) yw’r uchaf ond un yng Nghymru. | |
| Cost brosthetig fesul cyfnod claf preswyl | Mae cost gyfartalog prosthesisau fesul cyfnod gofal (£582) yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan ond mae’n gostwng. | |
| Cost fesul claf allanol | Mae cost claf allanol orthopedeg dewisol (£998) yn gymharol isel. | |
| Cost fesul diwrnod gwely claf preswyl | Y gost ar gyfer diwrnod gwely claf preswyl dewisol (£952) yw’r isaf ond un ledled Cymru. | |

| Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw cleifion yn cael apwyntiad dilynol?** | | |
| Apwyntiadau dilynol | Cafodd naw deg wyth y cant o gleifion apwyntiad dilynol ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth i osod pen-glin newydd, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru. | |
| Trefnir apwyntiadau dilynol o fewn yr amserlenni a argymhellir | Cafodd naw deg pump y cant o gleifion apwyntiad dilynol rhwng chwe wythnos a thri mis ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty. | |
| **A yw cymhlethdodau niweidiol yn cael eu hosgoi a'r manteision gorau posibl yn deillio o lawdriniaethau?** | | |
| SSIs ar gyfer gosod cluniau a phen-gliniau newydd | Mae'r gyfradd SSIs ar gyfer llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd yn uwch na chyfartaledd Cymru ar bob safle, ac eithrio ar gyfer llawdriniaeth i osod pengliniau newydd yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Targed Llywodraeth Cymru ar gyfer SSI yw sero y cant. | |
| Cyfraddau aildderbyn cleifion i'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd | Mae'r gyfradd aildderbyn cleifion yn dilyn llawdriniaeth ddewisol i osod clun newydd yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae'r gyfradd aildderbyn cleifion i osod pengliniau newydd yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru gyfan. | |
| Cyfradd marwolaethau ar gyfer cleifion orthopedeg dewisol | Mae'r gyfradd marwolaethau ar gyfer derbyniadau orthopedeg dewisol yn yr ysbyty ac o fewn 30 diwrnod i gael eu rhyddhau ymysg yr uchaf yng Nghymru. | |

| **Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau** | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| Cyfraddau ail-wneud llawdriniaethau | Mae’r gyfradd ail-wneud llawdriniaethau i osod cluniau a phengliniau newydd ledled y Bwrdd Iechyd yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, a’r gyfradd ail-wneud llawdriniaethau i osod pengliniau newydd ymysg poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yw’r isaf yng Nghymru. | |
| Gwella symptomau | Dywedodd wyth deg un y cant o gleifion fod llawdriniaeth ar y pen-glin wedi gwella eu symptomau’n rhannol neu’n sylweddol. Mae’r ganran hon yn debyg i ganran Cymru gyfan. | |


# Rhan 1

# 1 Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol

## Darpariaeth gofal sylfaenol

1.1 Yn ystod y tair blynedd rhwng 2010 a 2013, mae'r Bwrdd Iechyd wedi lleihau ei wariant gofal sylfaenol ar wasanaethau cyhyrysgerbydol 6.4 y cant (Arddangosyn 3). Roedd gwariant y Bwrdd Iechyd fesul pen o'r boblogaeth ar wasanaethau cyhyrysgerbydol gofal sylfaenol (£11.80) ychydig yn is na chyfartaledd Cymru gyfan (Arddangosyn 3). Mae lefel y gwariant hwn yn debyg i wariant llawer o fyrddau iechyd eraill.

Arddangosyn 3: Gwariant cyllideb y rhaglen gyhyrysgerbydol ar ofal sylfaenol rhwng 2010 a 2013




Ffynhonnell: Stats Cymru

1.2 Lleihaodd cyfran yr arian cyhyrysgerbydol a wariwyd ar ofal sylfaenol gan y Bwrdd Iechyd rhwng 2010-11 a 2011-12, ond cynyddodd ychydig y flwyddyn ganlynol (Arddangosyn 4). Fodd bynnag, ers 2011-12, mae gwariant wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru gyfan yn gyson, gan awgrymu bod gwasanaethau cyhyrysgerbydol wedi canolbwyntio mwy ar ddarpariaeth gofal eilaidd yn benodol.

Arddangosyn 4: Cyfran cyllideb y rhaglen gyhyrysgerbydol a wariwyd ar ofal sylfaenol rhwng 2010-11 a 2012-13

| Bwrdd Iechyd | Canran cyllideb y rhaglen MSK a wariwyd ar ofal sylfaenol | | |
|---|---|---|---|
| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 |
| Abertawe Bro Morgannwg | 11.3 | 9.8 | 10.8 |
| Aneurin Bevan | 10.2 | 10.2 | 9.7 |
| Betsi Cadwaladr | 10.7 | 9.3 | 9.9 |
| Caerdydd a'r Fro | 11.9 | 10.6 | 12.0 |
| Cwm Taf | 16.0 | 15.1 | 15.4 |
| Hywel Dda | 9.3 | 9.0 | 10.3 |
| Addysgu Powys | 9.9 | 14.0 | 17.1 |
| **Cymru Gyfan** | **11.1** | **10.4** | **11.2** |

Ffynhonnell: Stats Cymru

1.3 Fel rhan o'n gwaith, aethom ati i adolygu lefel mynediad uniongyrchol meddygon teulu at wasanaethau sylfaenol a chymunedol, a allai atal atgyfeiriad diangen i wasanaethau orthopedeg gofal eilaidd. Byddai hyn yn cynnwys gwasanaethau fel gwasanaethau poen cymunedol, rhaglenni hunanreoli, rhaglenni ffordd o fyw cymunedol, gwasanaethau ffisiotherapi cymunedol a gwasanaethau therapi ceiropractig. Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod ganddo nifer o wasanaethau y gall meddygon teulu eu cyrchu yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae ystod y gwasanaethau yn cymharu'n llai ffafriol â rhai byrddau iechyd eraill yng Nghymru (Arddangosyn 5).

Arddangosyn 5: mynediad uniongyrchol meddygon teulu at wasanaethau sylfaenol a chymunedol

| | Abertawe Bro Morgannwg | Aneurin Bevan | Betsi Cadwaladr | Caerdydd a'r Fro | Cwm Taf | Hywel Dda | Powys |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffisiotherapi | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Ffisiotherapyddion rôl estynedig | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Gwasanaeth poen cymunedol | ✓ | | | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Meddyg teulu â diddordeb arbennig mewn cyflyrau/cwynion orthopedeg | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Gwasanaethau gwell sy'n berthnasol i gyflyrau/cwynion orthopedeg | | Yn rhannol | | | | | |
| Mynediad gwell at ddiagnosteg | | ✓ | Yn rhannol | | | | ✓ |
| Therapi ceiropractig | | | | | | | |
| Rhaglenni ffordd o fyw/colli pwysau cymunedol | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Rhaglenni hunanreoli | ✓ | | | | | | |

Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

1.4 Fel rhan o'n Harolwg o Gleifion sy'n cael Llawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd, gofynnwyd i gleifion a oeddent wedi derbyn amrywiaeth o ymyriadau amgen cyn cael y llawdriniaeth. Ac eithrio ymyriadau i leddfu poen, a oedd yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, roedd nifer yr ymyriadau eraill ar gyfer cleifion ledled y Bwrdd Iechyd, fel cyngor ar reoli pwysau, yn is na chyfartaledd Cymru gyfan (Arddangosyn 6). Cyfradd y cleifion sy'n derbyn cyngor neu driniaeth ffisiotherapi cyn y llawdriniaeth (12.9 y cant) oedd yr isaf yng Nghymru.

Arddangosyn 6: Canran y cleifion a dderbyniodd ymyriad amgen cyn cael llawdriniaeth i osod pen-glin newydd


| | Abertawe Bro Morgannwg | Cyfartaledd Cymru gyfan |
|---|---|---|
| Canran y cleifion a gafodd ymyriad lleddfu poen cyn y llawdriniaeth | 80.6 | 74.9 |
| Canran y cleifion a gafodd gyngor neu driniaeth ffisiotherapi cyn y llawdriniaeth | 12.9 | 26.1 |
| Canran y cleifion a gafodd raglen ymarfer corff cyn y llawdriniaeth | 17.7 | 23.4 |
| Canran y cleifion a gafodd gyngor ar reoli pwysau cyn y llawdriniaeth | 8.1 | 9.1 |

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd

## Atgyfeiriadau gan feddygon teulu

1.5 Erbyn hyn, mae cyfraddau atgyfeirio meddygon teulu yn y Bwrdd Iechyd ym maes orthopedeg fesul 100,000 o'r boblogaeth ymysg yr uchaf yng Nghymru, yn dilyn cynnydd sylweddol ers 2012-13 (Arddangosyn 7). Mae cyfradd y trigolion 65 oed a hŷn yn is na chyfartaledd Cymru gyfan ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe, ac ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan yng Nghastell-nedd Port Talbot. Nid yw'n ymddangos, felly, bod oedran y boblogaeth yn cyfrannu at y cyfraddau atgyfeirio uchel. Mae hyn yn awgrymu bod ymddygiad meddygon teulu wedi newid, gan arwain at gyfraddau atgyfeirio uwch, a gall rhai atgyfeiriadau fod yn amhriodol.


Arddangosyn 7: Atgyfeiriadau gan feddygon teulu fesul 100,000 o'r boblogaeth 2012-2014




Ffynhonnell: Stats Cymru

1.6 Yn y gorffennol, roedd y Bwrdd Iechyd yn derbyn 870 o atgyfeiriadau fesul mis calendr ar gyfartaledd gan feddygon teulu. Fodd bynnag, ers mis Ebrill 2013, mae nifer yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu ym maes orthopedeg wedi cynyddu i gyfartaledd misol o 1,690 o atgyfeiriadau erbyn mis Mawrth 2015 (Arddangosyn 8).

Arddangosyn 8: Nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan feddygon teulu rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2015




Ffynhonnell: Stats Cymru

## Gwasanaethau asesu a thriniaeth cyhyrysgerbydol cymunedol

1.7 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru gysyniad CMATS yn 2012. Amcan CMATS yw darparu man cyswllt cyntaf ar gyfer atgyfeiriadau gan feddygon teulu ar gyfer asesu a thrin poen a chyflyrau cyhyrysgerbydol fel ffordd o sicrhau atgyfeiriadau cywir i wasanaethau orthopedeg gofal eilaidd. Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd CMATS yn 2011. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau clir ar sut y dylai CMATS weithredu. Mae cydymffurfiaeth leol ag egwyddorion allweddol canllawiau Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol, ac eithrio ar gyfer cynnwys podiatrydd ymarfer uwch yn y gwasanaeth (Arddangosyn 9).


Arddangosyn 9: Cydymffurfiaeth ag egwyddorion allweddol canllawiau Llywodraeth Cymru ar CMATS

| Egwyddor | Cydymffurfiaeth y bwrdd iechyd hwn | Nifer y byrddau iechyd ledled Cymru sy'n cydymffurfio |
|---|---|---|
| Clinigau sy'n cael eu cynnal mewn cyfuniad o ganolfannau lleol a gofal eilaidd | ✓ | Pob un ac eithrio Aneurin Bevan a Chwm Taf |
| Bydd pob atgyfeiriad cyhyrysgerbydol (ac eithrio eithriadau penodol) yn mynd i'r CMATS | ✓ | Tri (Abertawe Bro Morgannwg, Betsi Cadwaladr a Chwm Taf) |
| Mae gan staff fynediad uniongyrchol at wasanaethau diagnosteg | ✓ | Pob un ac eithrio Powys |
| **Mae'r gwasanaeth yn cynnwys:** | | |
| Ffisiotherapyddion ymarfer uwch | ✓ | Pob un |
| Podiatryddion ymarfer uwch | × | Pob un ac eithrio Abertawe Bro Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro |
| Meddygon teulu â gwybodaeth, sgiliau a diddordeb mewn cyflyrau/cwynion cyhyrysgerbydol | ✓ | Pedwar (Abertawe Bro Morgannwg, Aneurin Bevan, Betsi Cadwaladr a Chaerdydd a'r Fro) |

Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

1.8 Er nad oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw bodiatryddion ymarfer uwch yn cefnogi'r gwasanaeth, mae lefelau staffio cyffredinol ar gyfer CMATS yn debyg iawn i gyfartaledd timau ledled Cymru (Arddangosyn 10). Mae CMATS y Bwrdd Iechyd yn borth i bob atgyfeiriad, felly bydd yn dod o dan fwy o bwysau na gwasanaethau sydd â lefelau staffio tebyg fel Powys a Hywel Dda, lle mae atgyfeiriadau yn pasio trwy lwybrau eraill.

Arddangosyn 10: Lefelau staffio CMATS




Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

1.9 Un o egwyddorion CMATS yw asesu, gwneud diagnosis a thrin cleifion y mae eu triniaeth yn berthnasol i arbenigeddau CMATS a lle y credir bod modd gweld a thrin y claf mewn dim mwy na dau ymweliad (‘asesiadau wyneb yn wyneb’). Dylai cleifion sydd angen triniaeth fwy dwys gael eu hatgyfeirio i wasanaethau mwy priodol wrth y pwynt cyfeirio. Yn ôl data a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd, cafodd 65.8 y cant o gleifion a atgyfeiriwyd asesiad wyneb yn wyneb. Nid oedd pob bwrdd iechyd yn gallu darparu’r data hwn. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, nid yw amseroedd aros i weld CMATS ar gyfer asesiad wyneb yn wyneb yn cael eu cynnwys yn y llwybr rhwng atgyfeirio a thriniaeth. Yr amser aros cyfartalog rhwng atgyfeirio ac asesiad wyneb yn wyneb yn y Bwrdd Iechyd yw 10 wythnos, ac nid yw hynny’n cyrraedd targed wyth wythnos Llywodraeth Cymru.


Rhan 2

# 2 Cleifion allanol a gwasanaethau diagnostig

## Gwasanaethau i gleifion allanol

2.1 Er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o drin 95 y cant o gleifion o fewn 26 wythnos i'w hatgyfeirio, dylai byrddau iechyd fod yn gweithio ar sail targed mewnol o rhwng 12 a 14 wythnos ar gyfer apwyntiad cyntaf cleifion allanol. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio ar sail targed mewnol o rhwng 12 a 18 wythnos ar gyfer apwyntiad cyntaf, sy'n rhoi rhagor o bwysau ar elfennau diagnostig a chleifion preswyl y llwybr 26 wythnos rhwng atgyfeirio a thriniaeth. Rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2013, ychydig iawn o gleifion a arhosodd fwy na 26 wythnos am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf, ac mae perfformiad wedi bod yn well yn gyffredinol na chyfartaledd cynyddol Cymru gyfan (Arddangosyn 11). Dechreuodd canran y cleifion sy'n aros mwy na 26 wythnos yn y Bwrdd Iechyd gynyddu o Ebrill 2013 ymlaen, sy'n awgrymu nad yw capasiti cleifion allanol wedi ateb y galw yn sgil y cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau (Arddangosyn 11), er bod perfformiad wedi gwella ers Mehefin 2014.


Arddangosyn 11: Canran y cleifion sy'n aros dros 26 wythnos am apwyntiad claf allanol cyntaf




Ffynhonnell: Uned Gyflenwi Llywodraeth Cymru

2.2 Mae’r gallu i fodloni gofynion cleifion allanol yn dibynnu ar lefelau staffio meddygol byrddau iechyd. O safbwynt capasiti meddygon ymgynghorol, mae hefyd yn bwysig ystyried a oes cydbwysedd priodol ym mhob cynllun swydd unigol rhwng sesiynau gofal clinigol uniongyrchol cleifion allanol a theatrau. Mae nifer y meddygon ymgynghorol fesul 1,000 o atgyfeiriadau a nifer y sesiynau meddygon ymgynghorol ar gyfer gweithgarwch cleifion allanol ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan (Arddangosyn 12). Mae’r dangosyddion hyn yn awgrymu bod digon o amser meddygon ymgynghorol yn cael ei neilltuo i ateb y galw gan wasanaethau i gleifion allanol.

Arddangosyn 12: Staffio meddygon ymgynghorol a sesiynau cleifion allanol fesul 1,000 o atgyfeiriadau ar gyfer 2013-14




Ffynhonnell: Stats Cymru ac Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

2.3 Ar ôl cynllunio sesiynau i gleifion allanol, mae’n bwysig eu cynnal wedyn gan fod canslo clinigau yn creu pwysau ychwanegol ar y system oherwydd bod rheidrwydd o hyd ar y Bwrdd Iechyd i drin cleifion o fewn 26 wythnos. Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i adrodd ar y clinigau i gleifion allanol a ganslwyd yn 2012-13. Nid yw llawer o fyrddau iechyd yn gallu cyflwyno’r data hwn, felly nid oes cymhariaeth ar gael.


2.4 Mae clinigau'n cynnwys amrywiaeth o apwyntiadau newydd a dilynol ar sail galw am y gwasanaeth. Mae'n bosibl y bydd angen apwyntiad dilynol ar rai cleifion cyn y gall gweithwyr proffesiynol wneud penderfyniad clinigol, ond i gleifion eraill, mae un apwyntiad claf allanol yn ddigon. Nid oes angen i rai cleifion sydd angen apwyntiadau dilynol gael eu gweld gan feddyg neu mewn ysbyty o reidrwydd. Felly, dim ond os oes angen i gleifion ddychwelyd y dylid gofyn iddynt wneud hynny, gan sicrhau eu bod yn mynd i'r lleoliad priodol. Bydd hyn yn helpu i osgoi apwyntiadau dilynol diangen, a all ddisodli cleifion sydd angen apwyntiadau cyntaf ar frys.

2.5 Ar gyfer y cyfnod 2013-14, roedd y gymhareb o apwyntiadau dilynol i apwyntiadau newydd yn y Bwrdd Iechyd yn gymharol isel, sef 1.7 apwyntiad dilynol i bob apwyntiad newydd. Roedd hyn yn is na tharged blaenorol Llywodraeth Cymru (1.9).

2.6 Gall newidiadau mewn darpariaeth gwasanaethau i gleifion allanol helpu i leihau sawl gwaith y mae'n rhaid i gleifion fynd i'r ysbyty. Gallai hyn gynnwys clinigau poeth, neu glinigau rhithwir, sy'n defnyddio technoleg fodern i gynnal ymgynghoriadau meddygol i gleifion. Yn ein harolwg o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd, roedd 85 y cant o gleifion yn teimlo bod y Bwrdd Iechyd wedi ceisio cydgysylltu nifer eu hymweliadau. Hon oedd y ganran isaf ond un ledled y byrddau iechyd, o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan (88.3 y cant).

2.7 Gall cyfradd y cleifion na fynychodd apwyntiadau a'r gyfradd a ganslodd apwyntiadau ddangos a yw apwyntiadau yn briodol. Mae cyfraddau'r cleifion allanol na fynychodd apwyntiadau newydd ac apwyntiadau dilynol yn y Bwrdd Iechyd yn is na chyfartaledd Cymru gyfan (7.2 y cant ac 8.1 y cant) (Arddangosyn 13). Mae'r perfformiad hwn, fodd bynnag, yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru o bump y cant ar gyfer apwyntiadau newydd a saith y cant ar gyfer apwyntiadau dilynol, gan ddangos bod modd gwella effeithlonrwydd yn y system. Yn yr Arolwg o'r Bwrdd Iechyd, nododd y Bwrdd Iechyd fod 10.1 y cant o apwyntiadau newydd wedi'u canslo gan gleifion, ond bod y ganran hon yn llai ar gyfer apwyntiadau dilynol i gleifion allanol (7.6 y cant). Nid oedd pob bwrdd iechyd yn gallu adrodd ar gyfraddau canslo apwyntiadau, felly nid oes cymhariaeth ar gael.


Arddangosyn 13: Cyfraddau cleifion allanol na fynychodd apwyntiadau newydd ac apwyntiadau dilynol 2013-14




Ffynhonnell: Stats Cymru

2.8 Drwy ddefnyddio gwybodaeth ariannol a gyflwynir gan y Bwrdd Iechyd i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn, nodwyd bod derbyniadau cleifion allanol orthopedeg yn costio £143.62 yn y Bwrdd Iechyd, a'r ffigur hwn oedd yr uchaf yng Nghymru yn 2011-12 (Arddangosyn 14), gan ddangos cynnydd bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bydd lefel y gweithgarwch yn yr adrannau cleifion allanol yn effeithio ar gost derbyn cleifion allanol, ynghyd â chyfran uwch o dderbyniadau newydd, er y bydd costau eraill sy'n gysylltiedig â staff a chyfarpar yn ffactorau pwysig hefyd.

Arddangosyn 14: Cost derbyn cleifion orthopedeg allanol yn 2010-11 a 2011-12





Ffynhonnell: Ffurflenni costau Cymru

## Gwasanaethau ffisiotherapi

2.9 Yn gyffredinol, mae cleifion sydd angen ffisiotherapi i drin problemau cyhyrysgerbydol yn cael eu gweld yn gynt yn y Bwrdd Iechyd na mewn rhannau eraill o Gymru. Yn ystod y cyfnod rhwng Ionawr 2014 a Chwefror 2015, roedd cyfartaledd o 87.2 y cant o gleifion yn aros am lai nag wyth wythnos o gymharu â pherfformiad Cymru gyfan (82.3 y cant) (Arddangosyn 15). Mae perfformiad yn debyg yn Ysbyty Treforys ac Ysbyty Singleton.

2.10 Yn ôl targed Llywodraeth Cymru, ni ddylai unrhyw glaf aros mwy nag 14 wythnos ar gyfer gwasanaethau therapi. Ychydig iawn o gleifion sy'n aros mwy nag 14 wythnos yn y Bwrdd Iechyd o gymharu â pherfformiad Cymru gyfan (Arddangosyn 15) sy'n berfformiad da. Yn ogystal, mae nifer y cleifion sy'n aros mewn unrhyw fis penodol wedi lleihau'n sylweddol ers 2012.

Arddangosyn 15: Amseroedd aros ar gyfer ffisiotherapi (oedolion)





Ffynhonnell: Stats Cymru

2.11 Mae gwasanaethau ffisiotherapi ar gyfer cleifion allanol yn cael eu darparu mewn amrywiaeth eang o leoliadau ledled y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys meddygfeydd, a nodir bod hyn yn arfer da. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno gwasanaeth ‘ffisiotherapi uniongyrchol’ yn ddiweddar hefyd, sy’n caniatáu i gleifion gysylltu â’r adran ffisiotherapi am gyngor cyn i atgyfeiriad gael ei wneud, os credir bod hynny’n briodol. Mae hyn yn lleihau’r angen i weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall atgyfeirio cleifion i’r adran ffisiotherapi, ac yn helpu cleifion i gael eu cyfeirio i wasanaethau eraill mwy priodol. Yn ogystal, mae’r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu clinig asesiadau ffisiotherapi galw i mewn yn ddiweddar ar gyfer pobl sydd â phroblemau gyda chymalau neu gyhyrau. Mae’r gwasanaeth hwn ar gael i 30 claf y diwrnod, pum diwrnod yr wythnos yn Ysbyty Treforys. Fel sy’n wir am weddill Cymru, mae gwasanaethau ffisiotherapi yn parhau i gael eu darparu fel gwasanaeth pum diwrnod traddodiadol yn ystod yr wythnos waith yn gyffredinol.

## Gwasanaethau radioleg

2.12 Bydd angen i gleifion â phroblemau cyhyrysgerbydol gael profion radiolegol gan amlaf. Mae mynediad at brofion radioleg o bob math yn dilyn cais gan feddygon teulu a meddygon ymgynghorol yn y Bwrdd Iechyd hwn yn well o lawer na chyfartaledd Cymru gyfan (Arddangosyn 16). Rhwng mis Ionawr 2014 a mis Chwefror 2015, roedd cyfartaledd o 4.7 y cant o gleifion wedi aros mwy nag wyth wythnos am eu profion radioleg. Mae'r ganran hon yn well na chyfartaledd Cymru gyfan, sef 31 y cant ar gyfer atgyfeiriadau meddygon teulu a 22 y cant ar gyfer atgyfeiriadau meddygon ymgynghorol.

Arddangosyn 16: Canran y cleifion sy'n aros dros wyth wythnos am brofion radioleg




Ffynhonnell: Stats Cymru

2.13 Ledled Cymru yn 2013-14, roedd 23 y cant o'r holl geisiadau am brofion radioleg yn dilyn atgyfeiriadau gan feddyg teulu a 39 y cant o'r holl geisiadau am brofion radioleg yn dilyn atgyfeiriadau gan feddygon ymgynghorol yn geisiadau am sganiau MRI. Mae cyfraddau'r atgyfeiriadau MRI yn y Bwrdd Iechyd yn sylweddol is, sef 13 y cant o'r holl geisiadau am brofion radioleg yn dilyn atgyfeiriadau gan feddygon teulu a 32 y cant o'r holl geisiadau am brofion radioleg yn dilyn atgyfeiriadau gan feddygon ymgynghorol. Mae'r patrwm atgyfeirio hwn yn amrywio rhwng y tri ysbyty (Arddangosyn 17).


Arddangosyn 17: Cyfran y ceisiadau radioleg am sganiau MRI

| Safle ysbyty | Cyfran yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu am sganiau MRI | Cyfran yr atgyfeiriadau gan feddygon ymgynghorol am sganiau MRI |
|---|---|---|
| Tywysoges Cymru | 9 | 33 |
| Ysbyty Treforys | 24 | 43 |
| Castell-nedd Port Talbot | 14 | 34 |
| **Cyfartaledd Cymru gyfan** | **23** | **39** |

Ffynhonnell: Stats Cymru

2.14 Mae'r cynnydd yn y galw, yn enwedig am sganiau MRI yn dilyn atgyfeiriad gan feddygon teulu, yn gallu rhoi pwysau ar adrannau radioleg byrddau iechyd. Mae amseroedd aros ar gyfer sganiau MRI wedi bod yn gymharol ffafriol yn y Bwrdd Iechyd tan yn ddiweddar, pan gododd canran y cleifion sy'n aros mwy nag wyth wythnos i gyfartaledd Cymru gyfan (Arddangosyn 18).

Arddangosyn 18: Canran y cleifion sy'n aros dros wyth wythnos am sgan MRI




Ffynhonnell: Stats Cymru

# Rhan 3

## 3 Gwasanaethau i gleifion preswyl

### Aros a pharatoi i fynd i'r ysbyty

3.1 Ar ôl i'r clinigydd benderfynu mai ymyriad llawfeddygol yw'r dull mwyaf priodol o fynd i'r afael â phroblemau cyhyrysgerbydol, dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys enw'r claf ar y rhestr a threfnu dyddiad ar gyfer asesiad cyn y llawdriniaeth i sicrhau bod y claf yn iach yn glinigol. Mae trefniadau asesu cyn llawdriniaeth ar waith ledled y Bwrdd Iechyd pum diwrnod yr wythnos drwy glinigau i gleifion allanol yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Treforys, ac ar Ward 9 yn Ysbyty Tywysoges Cymru (Arddangosyn 19).

Arddangosyn 19: Trefniadau asesu cyn llawdriniaeth


| | Ysbyty Castell-nedd Port Talbot | Ysbyty Treforys | Ysbyty Tywysoges Cymru |
|---|---|---|---|
| Adran bwrpasol | × (rhan o'r adran cleifion allanol) | × (rhan o'r adran cleifion allanol) | × (ar Ward 9) |
| Dan arweiniad nyrs | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ar gael pum diwrnod yr wythnos | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gwasanaeth orthopedeg penodol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cydgysylltu trefnu apwyntiadau | Clerc asesu cyn llawdriniaeth | Clerc asesu cyn llawdriniaeth | Clerc asesu cyn llawdriniaeth |

Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

3.2 Yn ôl ein harolwg o gleifion a gafodd ben-glin newydd, roedd pob un o'r cleifion wedi cael asesiad cyn y llawdriniaeth cyn cael eu derbyn i'r ysbyty. Dylid rhoi rhybudd rhesymol cyn cwblhau asesiadau cyn llawdriniaeth er mwyn lleihau nifer yr apwyntiadau sy'n cael eu canslo yn annisgwyl os oes angen ymyriad arall ar glaf cyn y llawdriniaeth. Yn y Bwrdd Iechyd, aseswyd 14.5 y cant o'r cleifion hyn lai na thair wythnos cyn cael llawdriniaeth.

3.3 Wrth roi enw claf ar y rhestr, mae'n bwysig ystyried manteision y llawdriniaeth ac osgoi rhoi triniaethau sydd ag effeithiolrwydd clinigol cyfyngedig yn ôl y gwaith ymchwil [2]. Ar gyfer y cyfnod 2012-13, nodwyd bod cyfradd y triniaethau ag effeithiolrwydd clinigol cyfyngedig yn uchel ledled ardaloedd y Bwrdd Iechyd, a chyfradd Castell-nedd Port Talbot oedd yr uchaf ond un yng Nghymru (Arddangosyn 20).

Arddangosyn 20: Cyfradd y triniaethau ag effeithiolrwydd clinigol cyfyngedig fesul 100,000 o'r boblogaeth 2012-13





Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

[2] Mae'r triniaethau a adolygwyd yn cynnwys datgywasgu ar y meingefn, torri disg rhyngfertebrol, uno cymal arall y meingefn, dileu nam ar y meingefn, biopsi o'r meingefn, dadnerfogi cymal ffased meingefn fertebra ac archwilio'r meingefn.

3.4 Wrth roi enw claf ar y rhestr, mae hefyd yn bwysig ystyried y posibilrwydd o’i drin fel claf allanol er mwyn osgoi ei gadw yn yr ysbyty yn ddiangen. Mae Cymdeithas Triniaeth Ddydd Prydain wedi argymell nifer o driniaethau orthopedeg sy’n addas ar gyfer cleifion allanol. Yn y gorffennol roedd y rhain yn rhan o fframwaith rheoli perfformiad Llywodraeth Cymru, gyda tharged o 80 y cant. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13, roedd canran y triniaethau orthopedeg a argymhellir a gwblhawyd ar gyfer cleifion allanol yn Ysbyty Singleton yn well na tharged Llywodraeth Cymru. Ar rai o safleoedd eraill y bwrdd iechyd, roedd y perfformiad yn Ysbyty Treforys (42 y cant) a Chastell-nedd Port Talbot (64 y cant) ymysg yr isaf yng Nghymru (Arddangosyn 21).

Arddangosyn 21: Canran y triniaethau orthopedeg a argymhellwyd gan BADS a gwblhawyd ar gyfer cleifion allanol 2012-13





Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

Noder: Mae cyfleusterau ysbytai preifat a gwblhaodd waith ar ran y GIG wedi eu cynnwys.

3.5 Er mwyn sicrhau bod y canlyniad gorau posibl i gleifion yn deillio o ymyriad llawfeddygol, mae byrddau iechyd wedi mabwysiadu'r rhaglen Adferiad Gwell Ar ôl Llawdriniaeth (ERAS). Mae hyn yn cynnwys sefydlu 'ysgol ar y cyd' i ddarparu sesiynau addysgol ar gyfer cleifion sydd ar fin cael llawdriniaeth i osod clun neu ben-glin newydd. Mae cymorth yn cynnwys cyfle i gleifion ddysgu am ymarferion a thechnegau ffisiotherapi a fydd yn eu helpu i wella yn gynt ar ôl y llawdriniaeth. Cynhelir yr 'ysgol ar y cyd' cyn derbyn claf i ysbyty, ac mae'r gwaith ymchwil yn dangos bod egwyddor yr 'ysgol ar y cyd' yn helpu'r claf i wella yn gynt ar ôl llawdriniaeth a'i helpu i aros yn yr ysbyty am lai o amser. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu'r egwyddor 'ysgol ar y cyd', ac mae rhaglen 'ysgol ar y cyd' wythnosol yn cael ei chynnal yn ysbytai Treforys, Castell-nedd Port Talbot a Thywysoges Cymru.

3.6 Mae canran y cleifion sy'n aros dros 26 wythnos i gael eu derbyn fel cleifion preswyl neu gleifion allanol yn y Bwrdd Iechyd wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan ers mis Rhagfyr 2013 (Arddangosyn 22). Erbyn mis Ionawr 2015, roedd 44 y cant o gleifion wedi aros dros 26 wythnos i gael eu derbyn i'r ysbyty.

Arddangosyn 22: Canran y cleifion yn aros dros 26 wythnos i gael eu derbyn fel cleifion preswyl neu gleifion allanol rhwng mis Ebrill 2012 a mis Ionawr 2015





Ffynhonnell: Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru

## Derbyniadau

3.7 Er mwyn osgoi unrhyw gyfnodau aros dros nos diangen yn yr ysbyty a manteisio'n llawn ar nifer y gwelyau sydd ar gael, mae'n arfer da derbyn cleifion ar ddiwrnod eu llawdriniaeth. Targed Llywodraeth Cymru yw bod o leiaf 64 y cant o gleifion yn cael eu derbyn ar ddiwrnod y llawdriniaeth. Ledled y Bwrdd Iechyd, mae cyfran y cleifion sy'n cael eu derbyn ar ddiwrnod y llawdriniaeth yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae perfformiad ysbytai gwahanol yn amrywio, ac mae perfformiad Ysbyty Tywysoges Cymru ar y ffin â tharged Llywodraeth Cymru (Arddangosyn 23). Yn ystod y cyfnod 2012-13, rheolwyd nifer o gleifion drwy gyfleusterau preifat.

Arddangosyn 23: Canran y cleifion orthopedeg dewisol a dderbyniwyd ar ddiwrnod eu llawdriniaeth 2012-13




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

Noder: Mae cyfleusterau ysbytai preifat a gwblhaodd waith ar ran y GIG wedi eu cynnwys.

3.8 Mae gan y Bwrdd Iechyd wardiau pwrpasol ar gyfer gweithgarwch orthopedeg dewisol. Roedd nifer y gwelyau trawma ac orthopedeg a oedd ar gael yn ystod 2010-2013 yn gymharol gyson, gyda 222 o welyau ar gael bob dydd ledled y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, ers hynny mae cyfanswm y gwelyau wedi lleihau i 183.5 yn 2013-14, gostyngiad o 17.3 y cant. Mae cyfradd defnyddio'r gwelyau hyn wedi gostwng o 89.1 y cant yn 2010-11 i 80.0 y cant yn 2012-13, o gymharu â chyfradd defnyddio gwelyau optimaidd o 85 y cant. Ers y gostyngiad yn nifer y gwelyau, mae cyfradd defnyddio'r gwelyau wedi gwella i 84.1 y cant. Fodd bynnag, mae perfformiad y pedwar prif safle yn amrywio o 34.6 y cant yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot i gyfradd defnyddio gwelyau o 89.5 y cant yn Ysbyty Tywysoges Cymru (Arddangosyn 24). Mae Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Singleton yn darparu cyfleusterau cleifion allanol.

Arddangosyn 24: Nifer y gwelyau sydd ar gael a chyfraddau defnyddio gwelyau 2013-14

| | Gwelyau sydd ar gael | Cyfradd defnyddio gwelyau (%) |
|---|---|---|
| Ysbyty Treforys | 111.5 | 82.5 |
| Ysbyty Castell-nedd Port Talbot | 5.7 | 34.6 |
| Ysbyty Tywysoges Cymru | 55.9 | 89.5 |
| Ysbyty Singleton | 0.3 | 86.2 |

Ffynhonnell: Stats Cymru

## Aros yn yr ysbyty

3.9 Mae theatrau llawdriniaeth yn rhan bwysig o arhosiad claf orthopedeg dewisol mewn ysbyty, a gall oedi neu ganslo llawdriniaeth arwain at brofiad gwael i gleifion a defnydd aneffeithlon o adnoddau. Gall canslo llawdriniaeth ar ddiwrnod y llawdriniaeth hefyd arwain at danddefnyddio capasiti theatrau. Yn ôl y Bwrdd Iechyd, roedd cyfraddau cyffredinol defnyddio theatrau orthopedeg wedi amrywio rhwng 83 a 93 y cant yn y tri mis rhwng Ionawr 2013 a Mawrth 2013. Targed Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio theatrau orthopedeg yw 95 y cant. Nid oes unrhyw wybodaeth wedi'i darparu i ddangos sut mae defnydd y Bwrdd Iechyd yn amrywio ar safleoedd ei ysbytai. Ni chawsom wybodaeth am berfformiad defnyddio theatrau gan bob bwrdd iechyd, felly nid oedd modd gwneud cymhariaeth.

3.10 Cyfradd y Bwrdd Iechyd o sesiynau theatr orthopedeg a ganslwyd yn 2012-13 oedd 17.3 y cant ar bob safle. Yn ystod yr un cyfnod, canran y llawdriniaethau a ganslwyd gan y Bwrdd Iechyd oedd 15.8 y cant ar gyfer triniaethau i gleifion preswyl a 10.4 y cant ar gyfer achosion llawdriniaethau dydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed o ddau y cant ar gyfer llawdriniaethau sy'n cael eu canslo ar ddiwrnod y llawdriniaeth. Er nad yw cyfradd y llawdriniaethau sy'n cael eu canslo yn y Bwrdd Iechyd yn ymwneud â chanslo ar ddiwrnod y llawdriniaeth yn unig, mae angen archwilio'r cyfraddau uwch hyn i ddeall y rhesymau pam y mae


llawdriniaethau yn cael eu canslo. Nid oedd pob bwrdd iechyd yn gallu adrodd ar gyfraddau canslo llawdriniaethau, felly nid oedd modd gwneud cymhariaeth.

## Rhyddhau cleifion

3.11 Hyd arhosiad cyfartalog claf orthopedeg dewisol yn y Bwrdd Iechyd yw 3.8 diwrnod, sydd o fewn targed pedwar diwrnod y Bwrdd Iechyd. Mae perfformiad ysbytai'r Bwrdd Iechyd yn amrywio. Yr hyd arhosiad byrraf ar gyfartaledd yw 1.2 diwrnod yn Ysbyty Singleton, sy'n adlewyrchu'r gweithgarwch cleifion allanol yn yr ysbyty hwn. Nid yw hyd arhosiad cyfartalog Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Treforys (4.4 diwrnod) yn cydymffurfio â tharged Llywodraeth Cymru.

3.12 Mae'r hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer cleifion sy'n cael llawdriniaeth i osod clun neu ben-glin newydd yn cydymffurfio â thargedau Llywodraeth Cymru a bennwyd ar gyfer y triniaethau hyn, sef 6.1 diwrnod ar gyfer y naill a 6.5 diwrnod ar gyfer y llall (Arddangosyn 25), ac eithrio ar gyfer llawdriniaethau i osod clun newydd yn Ysbyty Tywysoges Cymru, sy'n 6.8 diwrnod ac yn hirach na targed Llywodraeth Cymru.

Arddangosyn 25: Hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer llawdriniaethau dewisol i osod clun a phen-glin newydd rhwng Ebrill 2012 a Hydref 2013





Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

3.13 Cost gyfartalog cyfnod gofal orthopedeg dewisol mewn ysbyty yn y Bwrdd Iechyd yw £4,657, yr uchaf ond un yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd Cymru gyfan, sef £4,239. Bydd hyd arhosiad cleifion yn dylanwadu ar gost cyfnod yn yr ysbyty, ond bydd costau eraill yn gysylltiedig â staff a chyfarpar yn ffactorau pwysig hefyd.

3.14 Un ffactor sy'n dylanwadu ar gost triniaeth yw'r gost sy'n gysylltiedig â phrosthesisau. Roedd cost gyfartalog prosthesisau fesul cyfnod gofal yn y Bwrdd Iechyd (£582) yn uwch na chyfartaledd Cymru yn 2011-12, er bod y gost wedi lleihau 12.7 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (Arddangosyn 26).


Arddangosyn 26: Cost prosthetig gyfartalog fesul cyfnod yn 2010-11 a 2011-12




Ffynhonnell: Ffurflenni costau Cymru

3.15 Ar gyfer y cyfnod 2012-13, y gost fesul diwrnod gwely ar gyfer claf preswyl orthopedeg dewisol yn y Bwrdd Iechyd (£952) oedd yr isaf ond un yng Nghymru (Arddangosyn 27). Roedd cost claf allanol orthopedeg dewisol yn isel hefyd, sef £998 y diwrnod (Arddangosyn 27). Pe bai'r hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer cleifion dewisol sy'n cael cluniau newydd yn Ysbyty Tywysoges Cymru yn lleihau yn unol â tharged 6.1 diwrnod Llywodraeth Cymru, gellid rhyddhau adnoddau gwerth tua £204,584, neu ryddhau capasiti i gynyddu llif cleifion.

Arddangosyn 27: Cost gyfartalog fesul claf allanol orthopedeg dewisol a diwrnod gwely claf preswyl 2012-13




Ffynhonnell: Ffurflenni costau Cymru


# Rhan 4

# 4 Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau

## Trefniadau dilynol

4.1 Ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty, dylai cleifion sydd wedi cael llawdriniaeth i osod clun neu ben-glin newydd gael apwyntiad dilynol rhwng chwe wythnos a thri mis. Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i adrodd ar faint o gleifion a oedd wedi cael apwyntiad dilynol o fewn yr amserlen benodedig. Fodd bynnag, dangosodd ein harolwg o gleifion fod 98.4 y cant o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd wedi cael apwyntiad dilynol ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty (Arddangosyn 28), sef yr uchaf ond un yng Nghymru. Roedd 95.1 y cant o'r rhain wedi cael yr apwyntiad dilynol o fewn yr amserlenni penodedig.

Arddangosyn 28: Canran y cleifion yn yr arolwg o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd a gafodd apwyntiad dilynol ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd

## Canlyniadau a phrofiad cleifion

4.2 I lawer o gleifion, gall llawdriniaeth fod yn brofiad cadarnhaol sy'n newid eu bywydau ac yn gwella eu hansawdd bywyd yn sylweddol, ond gall pethau fynd o chwith ambell waith. Fel rhan o'n gwaith aethom ati i adolygu amrywiaeth o ddangosyddion i ddeall i ba raddau y mae'r profiadau hyn yn niweidiol i gleifion yn y tymor byr a'r hirdymor.

4.3 Os yw claf yn dal haint mewn safle llawfeddygol mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddo aros yn hirach yn yr ysbyty. Ar gyfer y cyfnod 2012-13, aethom ati i adolygu cyfradd yr heintiau mewn safleoedd llawfeddygol ar gyfer llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd. Mae cyfradd yr heintiau mewn safleoedd llawfeddygol ar gyfer llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd yn uwch ym mhob safle na chyfartaledd Cymru gyfan, ac eithrio llawdriniaeth i osod pengliniau newydd yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, sy'n is na chyfartaledd Cymru gyfan (Arddangosyn 29). Targed Llywodraeth Cymru yw sero y cant.

Arddangosyn 29: Cyfraddau heintiau mewn safleoedd llawfeddygol ar gyfer arthrosgopi cluniau a phengliniau

| Ysbyty | Cyfradd heintiau mewn safleoedd llawfeddygol (cluniau) | Cyfradd heintiau mewn safleoedd llawfeddygol (pengliniau) |
|---|---:|---:|
| Ysbyty Treforys | 2.5 | 2.3 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1.7 | 1.4 |
| Ysbyty Tywysoges Cymru | 2.3 | 2.3 |
| **Cyfartaledd Cymru gyfan** | **1.5** | **1.8** |

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru

4.4 Ar gyfer yr un cyfnod, nodwyd bod cyfraddau aildderbyn cleifion i'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth ddewisol i osod clun newydd yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan a'r uchaf ond un ledled Cymru, er bod cyfraddau aildderbyn cleifion i'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth i osod pengliniau newydd yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru gyfan. Mae'r gyfradd marwolaethau yn uwch hefyd. Y gyfradd marwolaethau o fewn 30 diwrnod i ryddhau claf yn dilyn derbyniad orthopedeg dewisol yw'r uchaf yng Nghymru (Arddangosyn 30).


Arddangosyn 30: Cyfraddau aildderbyn cleifion a'r cyfraddau marwolaeth ym maes llawdriniaeth orthopedeg ddewisol

| Dangosydd | Abertawe Bro Morgannwg | Cyfartaledd Cymru gyfan |
|---|---|---|
| Canran y cleifion a aildderbyniwyd o fewn 28 diwrnod o gael llawdriniaeth i osod clun newydd | 1.2 | 0.9 |
| Canran y cleifion a aildderbyniwyd o fewn 28 diwrnod o gael llawdriniaeth i osod pen-glin newydd | 0.1 | 0.1 |
| Marwolaethau yn yr ysbyty fesul 100 o dderbyniadau orthopedeg dewisol | 0.09 | 0.06 |
| Marwolaethau o fewn 30 diwrnod o ryddhau cleifion orthopedeg dewisol, fesul 100 o dderbyniadau orthopedeg dewisol | 0.17 | 0.10 |

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

4.5 Mae oes clun neu ben-glin artiffisial yn amrywio oherwydd nifer o ffactorau, ond maen nhw'n gallu para dros 20 mlynedd ar gyfartaledd. Fodd bynnag, wrth i oedran cyfartalog y boblogaeth gynyddu, mae'r tebygolrwydd o roi llawdriniaeth i ail-wneud y cymal newydd yn cynyddu hefyd. Fodd bynnag, gall ail-wneud llawdriniaethau ddangos nad oedd y llawdriniaeth wreiddiol i osod cymal newydd yn effeithiol. Yn y Bwrdd Iechyd, mae'r gyfradd ail-wneud llawdriniaethau i osod cluniau a phengliniau newydd yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, a'r gyfradd ar gyfer ail-wneud llawdriniaethau i osod pengliniau newydd ar gyfer trigolion Pen-y-bont ar Ogwr yw'r isaf yng Nghymru (Arddangosyn 31).


Arddangosyn 31: Cyfradd ail-wneud llawdriniaethau fesul 10,000 o'r boblogaeth




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

4.6 Fel rhan o'n harolwg o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd, gofynnwyd i gleifion a oedd eu llawdriniaeth wedi gwella eu symptomau. Dywedodd hanner cleifion y Bwrdd Iechyd fod y llawdriniaeth wedi gwella eu symptomau yn sylweddol, a dywedodd 31 y cant arall fod y llawdriniaeth wedi gwella eu symptomau yn rhannol (Arddangosyn 32). Roedd hyn yn debyg i gyfartaledd Cymru gyfan. Fodd bynnag, roedd sylwadau cleifion mewn ysbytai gwahanol yn amrywio, gyda 90 y cant o gleifion yn ysbytai Castell-nedd Port Talbot a Threforys yn nodi gwelliannau, o gymharu â dim ond 69 y cant o gleifion yn Ysbyty Tywysoges Cymru a dim ond 40 y cant o gleifion a gafodd eu trin yn Ysbyty Sancta Maria.

Arddangosyn 32: Canran y cleifion a ddywedodd fod eu llawdriniaeth i osod pen-glin newydd wedi gwella eu symptomau'n rhannol neu'n sylweddol




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd

4.7 Ni nododd y Bwrdd Iechyd sut y mae'n mesur effaith ei lawdriniaethau i osod cymalau newydd ac eithrio trwy brofiadau a chanlyniadau a nodir gan gleifion (PREMS a PROMS). Byddai arferion da yn cynnwys defnyddio sgoriau Cluniau a Phengliniau Rhydychen, a chyflwyno data cleifion i Gofrestrfa Genedlaethol y Cymalau.

4.8 Dywedodd y Bwrdd Iechyd ei fod wedi cynnal un neu fwy o arolygon boddhad cleifion dros y 12 mis diwethaf er mwyn casglu safbwyntiau cleifion orthopedeg. Yn ogystal, dywedodd y Bwrdd Iechyd fod nyrsys arwain yn cynnal cyfarfodydd sicrwydd nyrsio wythnosol, a bod canmoliaeth a chwynion gan gleifion yn cael eu defnyddio i fonitro profiad cleifion o wasanaethau orthopedeg. Fodd bynnag, ni wnaeth y Bwrdd Iechyd fesur nifer y cwynion a dderbyniwyd am wasanaethau orthopedeg yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013. Mae llawer o fyrddau iechyd eraill yn methu adrodd ar nifer y cwynion sy'n ymwneud yn benodol â gwasanaethau orthopedeg.

# Atodiad 1

## Ffynonellau data

Mae'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd i lywio'r arolwg gorfodol o wasanaethau orthopedeg yn cynnwys:

- Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru a ofynnodd am ddata amrywiol yn ymwneud ag:
  - Atgyfeiriadau gan feddygon teulu
  - CMATS
  - Cleifion allanol orthopedeg
  - Gwasanaethau therapi
  - Gwasanaethau radioleg
  - Asesiad cyn y llawdriniaeth
  - Gwelyau orthopedeg
  - Theatrau llawdriniaeth
  - Staffio meddygol
  - Profiad cleifion
  - Gwybodaeth ariannol
- Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru
- Stats Cymru (www.statscymru.cymru.gov.uk)
- Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd
- Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd
- Ffurflenni costau Cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru